# Cael eich dos dyddiol o natur yn yr ysgol

wwf.org.uk

Presgripsiwn am Natur.

## Canllaw i athrawon

### Gweithgareddau syml ar gyfer cysylltu â natur yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt

Dro ar ôl tro, profwyd bod cysylltu â natur yn cyflawni gwyrthiau dros ein llesiant. Yn yr ysgol, gall cysylltiadau â natur helpu i wella hwyliau plant a'u sgiliau canolbwyntio, eu helpu i deimlo'n llai pryderus ac i leihau'r pwysau arnynt. Ond oherwydd bywydau ysgol prysur, mae dod o hyd i amser i'w dreulio ym myd natur yn gallu bod yn anodd...

Credwn fod pawb yn haeddu treulio amser ym myd natur. Felly rydyn ni wedi llunio rhestr o syniadau ar gyfer gweithgareddau natur syml y gallwch chi eu defnyddio gyda'ch myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Wedi'i rhannu'n weithgareddau 5 munud, 10-15 o funudau, a mwy na 15 o funudau, gallwch ddod o hyd i sawl ffordd wahanol o gynnwys ychydig mwy o natur ym mywyd yr ysgol.

Mae natur yn rhoi cymaint inni. O'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta i'r aer rydyn ni'n ei anadlu, mae'n ein cadw ni'n ffynnu ac yn iach. Ond rydyn ni'n anghofio weithiau bod angen ar natur ychydig o help oddi wrthym ni hefyd. Felly, wrth inni adael i natur gyflawni gwyrthiau dros ein llesiant, rhaid inni gofio cefnogi ein byd naturiol anhygoel i dalu'r gymwynas yn ei hôl.

Oherwydd pan fyddwn ni'n adfer natur, mae natur yn ein hadfer ni



# Gweithgareddau ar gyfer cysylltu â byd natur y tu allan i'r ystafell ddosbarth

**5 munud y tu allan**

5,4,3,2,1 – ar diroedd yr ysgol neu yn eich man gwyrdd lleol, gofynnwch i'r myfyrwyr ddefnyddio eu synhwyrau i ddod o hyd i bum peth ym myd natur y gallant eu gweld, pedwar peth y gallant eu clywed, tri pheth y gallant eu cyffwrdd, dau beth y gallant eu harogli, ac un peth y gallant ei flasu (yn ddamcaniaethol). Ni chaiff unrhyw un flasu unrhyw beth oni wyddoch ei fod yn hollol ddiogel.

Gofynnwch i rai o'r myfyrwyr, neu enwebwch swyddog dosbarth i ail-lenwi bwydwyr adar yr ysgol a/neu'r baddonau adar pan fyddant yn mynd yn isel.

Rhowch bum munud i'r myfyrwyr fynd i gasglu un peth o iard neu gae'r ysgol na ddylai fod yno, cyn ei ailgylchu neu ei rhoi yn y bin cywir. At ddibenion diogelwch, rydym yn argymell ichi ddefnyddio codwyr sbwriel os ydynt ar gael a sicrhau nad yw'r plant yn cyffwrdd yn unrhyw beth brwnt/budr, siarp neu niweidiol mewn unrhyw ffordd arall.

Yn iard neu ar gae'r ysgol, gofynnwch i'r myfyrwyr orwedd ar eu cefnau, cau eu llygaid a gwrando ar synau natur. Faint o synau gwahanol ydyn nhw'n gallu eu clywed? Ydyn nhw'n gallu adnabod y bywyd gwyllt a allai fod yn gwneud y synau hyn?

Gall ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar fod yn wych i lesiant y plant, ac yn well fyth os allwch chi ychwanegu cysylltiad â natur atynt. Ceisiwch anadlu'n ystyrlon trwy ofyn i'r myfyrwyr gau eu llygaid, rhoi eu dwylo ar eu boliau a chanolbwyntio ar eu hanadlu. Esboniwch i'r plant mai ystyr ymwybyddiaeth ofalgar yw talu eich holl sylw i'r hyn a wnewch neu a deimlwch yn yr eiliad hon. Gofynnwch iddynt anadlu i mewn yn araf trwy'r trwyn ac allan trwy'r geg. Dylent fod yn gallu teimlo'u boliau'n codi wrth i'r awyr iach ddod i mewn i'w cyrff, ac yn disgyn wrth iddynt anadlu allan. Sut mae hyn yn gwneud iddynt deimlo?

Enghraifft arall o weithgaredd ymwybyddiaeth ofalgar cyflym mewn natur yw sefyll yn stond ac ymestyn yng ngolau'r haul. Gofynnwch i'r myfyrwyr dalu sylw at wres pelydrau'r haul ar eu cefnau.

Os yw'n ddiwrnod braf â chymylau yn yr awyr, treuliwch ychydig o funudau'n edrych i'r awyr i weld siapiau pa anifeiliaid sydd yno. Er diogelwch, sicrhewch na fydd y plant yn edrych ar yr haul yn uniongyrchol.

Enwch bedwar anifail gwahanol sy'n gwneud sŵn nodweddiadol. Rhowch enw anifail i bob plentyn yn y grŵp. Chwaraewch gêm grwpio lle mae'r plant yn mynd i grwpiau gwahanol ar sail yr anifeiliaid e.e., mae angen i bob grŵp gynnwys eliffant, ewch i grŵp o anifeiliaid o'r un fath, ewch yn barau o anifeiliaid gwahanol. Dim ond sŵn yr anifail caiff y plant ei ddefnyddio i gyfathrebu.

**10 – 15 o funudau y tu allan**

Os nad yw'r tywydd yn rhy oer neu'n wlyb, ewch â'r dosbarth i ddarllen yn yr awyr agored, er mwyn newid golygfa.

Ewch â rhywbeth gyda chi y byddwch chi'n ei esbonio ar fwrdd fel arfer, a defnyddio sialc ar wyneb yr iard i ddysgu yn lle.

Os bydd y myfyrwyr yn tynnu mapiau meddwl, llinellau amser, tablau neu siartiau llif fel rhan o'r wers, gofynnwch iddynt ddefnyddio sialc a/neu ddeunyddiau naturiol i'w wneud tu allan yn y lle chwarae.

Sganiwch am fywyd gwyllt. Gosodwch 10 munud ar y cloc a chyfri faint o anifeiliaid gwahanol (gan gynnwys bwystfilod bach!) a phlanhigion y mae'r myfyrwyr yn gallu dod o hyd iddynt ar diroedd yr ysgol neu yn y man gwyrdd lleol. Ceisiwch wella ar sgôr y dosbarth bob tro y byddwch yn gwneud y gweithgaredd hwn.

Cynhaliwch sesiwn ioga ar iard neu gae'r ysgol. Gofynnwch i'r myfyrwyr roi cynnig ar ystumiau'r goeden, yr eryr a'r mynydd er mwyn gwneud cysylltiad ychwanegol â byd natur.

Rhowch gynnig ar ddaearu â natur. Gofynnwch i'r myfyrwyr dynnu eu hesgidiau a sanau a sefyll ar y ddaear galed. Anogwch nhw i dreulio amser yn teimlo'r pridd, dail neu laswellt o dan eu traed.

Rhwbiwch risgl coed er mwyn ymchwilio i siapiau a graen gwahanol.

Gwnewch y gweithgareddau sy'n gallu bod yn swnllyd e.e. trafodaethau dosbarth, chwarae rôl ac ati, yn yr awyr agored.

Defnyddiwch ddail wedi cwympo neu eitemau naturiol fel mes, brigau, moch coed a choncyrs i lunio enfys neu greadur gwyllt ar iard yr ysgol gyda'ch dosbarth.

Os yw hi'n bwrw glaw, gofynnwch i'r myfyrwyr greu cychod o bapur sgrap a'u rasio mewn pyllau hir o ddŵr ar yr iard. Gallwch gynnwys rhywfaint o ddysgu am ddaearyddiaeth afonydd a'r cylch dŵr ar hyd y ffordd!

Cymesuredd mewn natur - ceisiwch ddarganfod o leiaf tair eitem naturiol gymesurol yn iard neu gae eich ysgol cyn pen 10 munud. Hefyd, gallwch ddefnyddio pethau naturiol i greu eich dyluniadau cymesurol eich hun ar lawr y lle chwarae.

**Mwy na 15 o funudau y tu allan**

Adeiladwch westy enfawr i bryfed gyda'r holl ddosbarth. Dewch o hyd i berth, ffens neu foncyff cysgodol ar diroedd yr ysgol a gweithiwch gyda'ch gilydd i adeiladu cynefin anhygoel i'n bwystfilod bach pwysig. Mae cyfarwyddiadau ar sut i adeiladu gwesty i bryfed ar gael ar dudalen 8 o'n canllaw gweithgareddau i'r gaeaf (Adnoddau Gaeaf WWF.pdf).

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddod o hyd i bethau naturiol o holl liwiau'r enfys ar diroedd yr ysgol, gan dynnu lluniau ohonynt gyda chamera/ffôn neu â llaw.

Os yw'r tywydd yn braf, ewch â'r wers gyfan y tu allan.

Ewch ar antur! Gofynnwch i'r myfyrwyr ddefnyddio cyfeirlyfrau adnabod neu ap adnabod fel Seek gan iNaturalist (Seek by iNaturalist · iNaturalist) i adnabod rhywogaethau'r coed, planhigion, pryfed ac adar ar diroedd eich ysgol neu yn eich man gwyrdd lleol.

Cynlluniwch helfa drysor i'r myfyrwyr o amgylch yr ysgol, neu fel rhan o daith i fan gwyrdd lleol. Bydd angen arnoch ymweld â'r lle ymlaen llaw i lunio rhestr o'r gwrthrychau naturiol gall y myfyrwyr ddod o hyd iddynt. Rhowch fap iddynt o ble i chwilio amdanynt.

Plannwch goeden ar diroedd yr ysgol – mae'r gaeaf yn amser da gan fod gwreiddiau coed heb ddeffro. Mae coed ifanc yn aml ar gael am ddim gan elusennau amgylcheddol fel Coed Cadw neu Gyngor y Coed. Efallai y gallwch chi gael cymorth gan erddi cymunedol neu randiroedd lleol. Mae cyfarwyddiadau ar sut i blannu coed ifanc ar dudalen 4 o'n canllaw gweithgareddau i'r gaeaf (Adnoddau Gaeaf WWF.pdf)

Plannwch fylbiau cennin Pedr, saffrwn, aliwm neu diwlip gyda'ch dosbarth yn yr hydref yn barod at y gwanwyn. Mae canllawiau ar sut i blannu bylbiau ar dudalen 4 o'n canllaw gweithgareddau i'r hydref (Adnoddau Hydref WWF.pdf).

Sefydlwch ddarn o dir i dyfu neu blannu llysiau gyda'r myfyrwyr, a thyfu ffrwythau a llysiau tymhorol drwy gydol y flwyddyn. Mae hen esgidiau glaw a chartonau llaeth/llefrith wedi'u hailgylchu'n gwneud potiau planhigion gwych. Os nad oes llawer o le gennych, ceisiwch ddefnyddio hen balet neu rywbeth tebyg i greu plannwr fertigol.

Lluniwch ddyddiadur natur y gwanwyn fel dosbarth. Mae gwylio'r byd natur o'n cwmpas yn gallu ein helpu i deimlo mwy o gysylltiad iddo, ac mae cofnodi manylion newidiadau tymhorol yn gyson yn gallu'n helpu ni i adnabod unrhyw batrymau o ran newid yn y tymor hirach. Edrychwch yn agosach ar beth sy'n digwydd ym myd natur yn lleol y gwanwyn hwn. Pryd welwch chi rifft brogaod yn y pyllau lleol? Pryd welwch chi flagur ar goed ceirios a'r ddraenen wen? Pryd welwch chi saffrwn neu gennin Pedr yn tyfu yn y parciau lleol? Pryd welwch chi gywion gwyddau a chywion elyrch?

Ewch am dro gwyllt wedi'i noddi o amgylch eich man gwyrdd lleol ac ystyriwch godi arian at elusen. Ewch â chyfeirlyfrau a cheisiwch adnabod unrhyw natur ar y ffordd.

# Gweithgareddau i gysylltu â byd natur yn yr ystafell ddosbarth

5 munud y tu mewn

Cymerwch eich dos dyddiol o natur trwy wylio un o'n fideos natur meddylgar gyda'r myfyrwyr, sy'n para tri munud. Gwyliwch ddolydd blodeuog yn llawn pryfed yn suo, coedwigoedd sy'n frithwaith o belydrau'r haul, a chynefinoedd tanddwr tawel, yn fideos hardd WWF. Mae'r fideos 'Eich dos dyddiol o natur' ar ein tudalen we i ysgolion (Cael eich dos dyddiol o natur yn yr ysgol | WWF).

O jynglau Borneo i goedwigoedd y DU, dewch o hyd i draciau sain gwahanol o fyd natur ar ein sianel YouTube. (Myfyrdod / Synau naturiol - YouTube). Maen nhw'n dda iawn i wrando arnynt pan fyddwch yn gweithio'n dawel.

Ystyriwch dyfu planhigion y bydd y myfyrwyr yn gallu rhoi dŵr iddynt a gofalu amdanynt drwy gydol y flwyddyn yn yr ystafell ddosbarth.

Faint o anifeiliaid gwyllt y DU gall eich dosbarth eu henwi cyn pen 5 munud? Allwch chi wella ar eich sgôr y tro nesaf?

Newidiwch ddelwedd eich bwrdd clyfar i lun o natur. Mae lluniau gwych o fywyd gwyllt ar gael i'w lawrlwytho ar ein tudalen we i ysgolion. (Cael eich dos dyddiol o natur yn yr ysgol | WWF).

Yn ystod sgwrs neu drafodaeth ddosbarth, defnyddiwch rywbeth naturiol megis mochyn coed fel pwnc trafod.

Defnyddiwch ap cwis fel Kahoot i gynnal cwis byd natur 5-munud yn yr ystafell ddosbarth. Gallwch ddewis anifail neu gynefin gwahanol bob wythnos i ddysgu amdanynt.

Defnyddiwch rywbeth naturiol fel 'ffôn stori' a chreu stori fer wirion gyda'ch gilydd. Mae un myfyriwr yn dal y ffôn ac yn dechrau'r stori gyda'r frawddeg gyntaf. Caiff y ffôn ei basio o amgylch y dosbarth a bydd pawb yn ychwanegu brawddeg newydd i'r stori – po fwyaf gwirion y gorau!

10-15 o funudau y tu mewn

Chwaraewch bingo natur ddynol fel dosbarth. Meddyliwch am ddatganiadau gwahanol e.e. yn cael ei ben-blwydd yn y gwanwyn, yn mwynhau gwylio adar, mae ei hoff anifail yn famal ac ati, er mwyn llenwi taflen bingo. Mae'r myfyrwyr wedyn yn gofyn cwestiynau i'w gilydd er mwyn dod o hyd i rywun sy'n cyfateb i bob datganiad, ac yn ysgrifennu ei enw yn y blwch cyfatebol. Yr enillydd yw'r person cyntaf i gwblhau ei daflen.

| | | |
|---|---|---|
| Mae'n mwynhau gwylio adar<br>AISHA | Mamal yw ei hoff anifail<br>RHYS | Wedi gwylio rhaglen ddogfen am natur<br>ELIS |
| Mae ganddo/ganddi hoff flodyn | Mae hi ofn pryfed cop<br>EZRA | Hydref yw ei hoff dymor<br>ISABELLE |
| Mae'n gallu enwi aderyn sy'n byw yn y DU | Mae'n gwybod pa anifail sydd ar logo WWF<br>RHIAN | Mae wedi tyfu planhigyn |

Anogwch y myfyrwyr i greu posteri ar gyfer diwrnod anifail neu ddiwrnod amgylcheddol byd-eang. Er enghraifft, Diwrnod Cynefinoedd y Byd ar 7 Hydref, Diwrnod Rhyngwladol yr Arth Wen ar 27 Chwefror, Diwrnod Rhyngwladol Bywyd Gwyllt ar 3 Mawrth neu Ddiwrnod Rhyngwladol Fforestydd Glaw y Byd ar 22 Mehefin.

Cwblhewch un o gwisiau bywyd gwyllt WWF gyda'r dosbarth i ddysgu ffeithiau anhygoel am ein planed a rhai o'i rhywogaethau mwyaf ysblennydd. Mae digon o ddewis ar ein gwefan (Cwis ar gyfer eich byd | WWF).

Ceisiwch gynnwys bywyd gwyllt yn eich gwersi ymarfer corff (ymestynnwch i fyny fel coeden, allan fel orang-wtan, sefyll ar un goes fel fflamingo ac ati)

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddod o hyd i ddeilen, a thynnu llun ohoni yn ofalus. Defnyddiwch gyfeirlyfr neu ymchwiliwch ar-lein i ddarganfod o ba goeden y daeth, a labelwch y llun.

Ar gyfer gwaith peth cyntaf yn y bore, ac i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau anhygoel y DU, gofynnwch i'r myfyrwyr gopïo diagram gwyddonol syml o flodyn gwyllt neu goeden gynhenid, a brawddeg neu ddwy am y planhigyn hwnnw yn eu llyfrau bore cynnar. I gefnogi llythrennedd, gallai atalnodi'r brawddegau fod ar goll er mwyn i'r myfyrwyr ei gywiro wrth iddynt eu copïo.

Gofynnwch i'r myfyrwyr gau eu llygaid a defnyddio eu synnwyr cyffwrdd i deimlo gwrthrych o natur – a cheisio tynnu ei lun heb agor eu llygaid. Cymharwch y llun â'r gwrthrych ei hun. Ydyn nhw wedi'i gamddarlunio neu fethu unrhyw ddarnau ohono? Beth yw'r rheswm dros hyn?

Rhowch enw o fyd natur i'r dosbarth a gofynnwch i bawb bleidleisio dros ei hoff enw. Beth am anifail mewn perygl e.e. llewpard eira, orang-wtan, môr-grwban gwyrdd neu rywbeth o fywyd gwyllt hardd y DU e.e. dyfrgi, glas y dorlan, derwen?

Crëwch faneri neu arlantau natur lliwgar i'r ystafell ddosbarth trwy roi dail a gwympodd yn yr hydref ar linyn neu wlân. Sicrhewch fod y dail wedi sychu cyn eu defnyddio.

Gall y myfyrwyr ysgrifennu cerdd acrostig yn defnyddio gair o fyd natur fel y man cychwyn e.e. tymor, ei hoff anifail gwyllt, neu gynefin.

Gall y myfyrwyr ddefnyddio map o diroedd yr ysgol i ddylunio ardal natur ddelfrydol i'r ysgol. Beth fyddant yn ei gynnwys? Pa greaduriaid gwyllt fyddai'n elwa ohoni?

Defnyddiwch baent bys i greu dail ar dempled o foncyff coed a changhennau. Yn yr hydref, gallwch ddefnyddio lliwiau brown, aur, coch a melyn i greu eich dail, ac yn y gwanwyn gallwch ddefnyddio lliwiau gwyrdd ar gyfer y dail newydd, a lliwiau pinc a phorffor ar gyfer y blodau.

Casglwch ddail wedi cwympo a dod â nhw i'r ystafell ddosbarth. Rhowch gynnig ar rwbio dail trwy osod deilen ar wyneb gwastad gyda'r gwythiennau'n wynebu i fyny, a rhoi darn o bapur sgrap drosti. Gan ddal y papur, rhwbiwch greon ar ei ochr dros y ddeilen i greu patrymau deilen hardd. Faint o ddail gwahanol allwch chi eu rhoi ar un darn o bapur?

Mae gêm y chwilod yn un da i'w chwarae yn ystod amser chwarae gwlyb! Y cyfan sydd ei angen arnoch yw papur sgrap, dis ac ysgrifbin neu bensil. Mae pob chwaraewr yn taflu'r dis yn ei dro. Rhaid i bob chwaraewr daflu 6 yn gyntaf cyn tynnu llun corff y chwilen i ddechrau. Pan fyddwch wedi taflu 6 ac wedi tynnu llun y corff, gallwch ychwanegu darnau eraill:

6 = y corff – rhaid ichi gael hwn i ddechrau
5 = y pen – rhaid ichi fod â phen cyn ychwanegu llygaid ac antenau
4 = yr adenydd – bydd angen 2 aden arnoch
3 = 2 x coes – bydd angen 6 coes arnoch
2 = antena – bydd angen 2 antena arnoch
1 = llygad – bydd angen 2 lygad arnoch

Yr enillydd yw'r person cyntaf i orffen ei lun o chwilen!

15+ o funudau y tu mewn

Edrychwch ar ein rhestr ddarllen am natur a ddatblygwyd gyda The Reading Agency i gael ysbrydoliaeth. (Cael eich dos dyddiol o natur yn yr ysgol | WWF).

Lluniwch fwrdd neu arddangosfa natur i'r dosbarth yn defnyddio gwrthrychau naturiol o'ch ardal leol e.e. dail wedi cwympo oddi ar goed gwahanol, concyrs, mes, hadau masarn, moch coed ac ati. Sicrhewch fod y plant yn gwybod i beidio â chasglu unrhyw flodau heb ganiatâd.

Lluniwch gêm OXO natur! Gofynnwch i'r myfyrwyr baentio anifeiliaid, blodau ac ati ar ddisgiau bach o bren i wneud O a X, cyn creu grid o frigau. Gallwch gadw'r rhain yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer amser chwarae gwlyb, neu gallai'r plant mynd â nhw adref gyda nhw i chwarae'r gêm gyda'u teuluoedd.

Gwyliwch raglen ddogfen am natur er mwyn cynnwys byd natur yn yr ystafell ddosbarth ar ddiwrnod gwlyb. Rydym yn argymell pennod o gyfres Wild Isles (BBC iPlayer), Our Planet (penodau llawn Our Planet ar YouTube neu Netflix), y ffilm ddogfen David Attenborough: A Life On Our Planet (Netflix) neu Our Beautiful Wild, ffilm a gafodd ei ysgrifennu, ei gyfarwyddo a'i golygu gan bobl ifanc. (Our Beautiful Wild – Young Voices for Nature Film).

Cynhaliwch wasanaeth ysgol ar dopig o fyd natur – er enghraifft, diwrnod rhyngwladol amgylcheddol neu ddiwrnod rhyngwladol anifail, neu fenter fel Awr Ddaear, Wythnos Ailgylchu neu Gyfri'n ôl i Weithredu ar Newid Hinsawdd (Climate Action Countdown).

Cynhaliwch ddigwyddiad 'Gwisgo'n Wyllt' WWF (Wear it Wild) yn eich ysgol er mwyn codi arian ar gyfer prosiectau cadwraethol WWF.

Lluniwch collage o ddail wedi cwympo a ysbrydolwyd gan liwiau anhygoel yr hydref. Mae mwy o weithgareddau celf hydrefol ar dudalen 3 ein canllaw gweithgareddau i'r hydref (Adnoddau Hydref WWF.pdf).

Crëwch fwydwyr adar o boteli plastig wedi'u hailgylchu a'u hongian o amgylch eich grŵp ysgol. Mae cyfarwyddiadau ar gyfer gwneud bwydwyr adar o boteli wedi'u hailgylchu ar dudalen 7 ein canllaw gweithgareddau i'r gwanwyn (Adnoddau Gwanwyn WWF.pdf).

Neu gallwch greu bwydwyr adar o ddeunyddiau naturiol fel moch coed. Mae'r cyfarwyddiadau perthnasol i'w gweld ar dudalen 7 ein canllaw gweithgareddau i'r gaeaf (Adnodd Gaeaf WWF.pdf).

Plannwch hadau berwr ar wlân cotwm ac annog y myfyrwyr i roi dŵr i'w planhigion a gofalu amdanynt drwy gydol y tymor.

Crëwch westai i wenyn o duniau wedi'u hailgylchu a ffyn bambŵ er mwyn helpu ein peillwyr cyfeillgar. Gosodwch y gwestai o amgylch yr ysgol, yn ddelfrydol ar waliau sy'n wynebu i'r de mewn ardaloedd tawel. Mae mwy o gyfarwyddiadau ar dudalen 8 ein canllaw gweithgareddau i'r gwanwyn (Adnoddau Gwanwyn WWF.pdf).

Crëwch eich peli hadau dolydd blodau gwyllt eich hun o gompost, clai a hadau blodau gwyllt cynhenid er mwyn rhoi help llaw i bryfed. Yr hydref a'r gwanwyn yw'r adegau gorau i blannu'r peli hadau ar diroedd eich ysgol. Mae mwy o gyfarwyddiadau ar dudalen 13 ein canllaw gweithgareddau i'r gwanwyn. (Adnoddau Gwanwyn WWF.pdf.).

Ymunwch ag un o wersi byw WWF i ysgol gynradd neu gwyliwch un o'n gwersi wedi'i recordio. Mae rhestr o'r gwersi byw sydd ar y gweill ar dudalen ddigwyddiadau ein gwefan: Calendr ysgolion: gwersi byw a digwyddiadau | WWF

Ffa llydan yw un o'r llysiau cyntaf i dyfu yn y gwanwyn y gallwch chi eu hau. Mae'r hadau mawr yn hawdd eu trin gan y plant, ac oherwydd eu bod yn tyfu'n gyflym, maen nhw'n blanhigion delfrydol i wylio camau egino. Rhowch yr haden mewn jar yn eich ystafell ddosbarth. Bydd y gwreiddiau a'r dail cyntaf yn ymddangos ar ôl ychydig ddyddiau. Mae cyfarwyddiadau llawn ar gael ar dudalen 4 ein canllaw gweithgareddau i'r gwanwyn. (Adnoddau Gwanwyn WWF.pdf)

Crëwch bwffe nythod adar o ddeunyddiau planhigion, gwellt, glaswellt, dail gwyrdd, mwsogl a phlu. Gallwch greu hwn yn y dosbarth cyn ei rhoi y tu allan mewn basged grog neu fwydydd adar math caets gall adar ei gyrraedd yn hawdd. Mae cyfarwyddiadau llawn ar dudalen 5 ein canllaw gweithgareddau i'r gwanwyn (Adnoddau Gwanwyn WWF.pdf)

Tyfwch flodau haul fel dosbarth eleni. Gallwch ddechrau eu tyfu mewn potiau neu blanwyr y tu mewn cyn eu symud i'r awyr agored ar ôl 2-3 wythnos. Sicrhewch fod y planhigion yn cael eu cadw mewn lle cynnes, i ffwrdd o olau uniongyrchol yr haul pan fyddant y tu mewn, a chadwch y compost yn wlyb. Rhowch labeli ar y planhigion er mwyn gweld planhigyn pwy sy'n tyfu mwyaf!

Rhowch wybod i ni sut rydych chi'n cael eich dos dyddiol o fyd natur yn yr ysgol trwy ddefnyddio ein handlen @WWFUK_Education ar X neu anfon e-bost atom yn education@wwf.org.uk.

Am ddyfodol lle mae pobl a natur yn ffynnu | wwf.org.uk

Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warant (4016725)

# Cael eich dos dyddiol o natur yn yr ysgol

wwf.org.uk

Presgripsiwn am Natur.